# DRAFFT / DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ar 26 Mehefin 2008** / ***Minutes of meeting held at County Hall, Mold, 26 June 2008***

## Presennol / *Present*

**Ynys Mon / *Anglesey***
Elfryn Davies
Rheinallt Thomas

**Blaenau Gwent**
Gill Vaisey

**Pen y bon tar Ogwr / *Bridgend***
E J Evans
Carys Thomas

**Caerffili/ *Caerphilly***
David Brooks
Michael Gray
Vicky Thomas

**Caerdydd / *Cardiff***

**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthen***
Mary Parry

**Ceredigion**
Mary Parry
Vaughan Salisbury

**Conwy**
Nicholas Richter
Bob Griffiths

**Sir Ddinbych / *Denbighshire***
Brian H Jones
Morfudd Jones
Mairwenna B Lloyd

**Sir y Fflint / *Flintshire***
Colin Legg
Dora Jones
Fred Gilmore
Eric Owen

**Gwynedd**
W M Meredith

**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***
Carys Thomas

**Sir Fynwy / *Monmouthshire***
Gill Vaisey

**Castell-Nedd ac Aberfan / *Neath and Port Talbot***

**Casnewydd / *Newport***
Vicky Thomas
Sally Northcott

**Sir Benfro / *Pembrokeshire***

**Powys**
John Mitson
Christine Robinson

**Rhondda Cynon Taf**
Carys Thomas

**Abertawe / *Swansea***
Vicky Thomas

**Torfaen**
Vicky Thomas

**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***
Gill Vaisey

**Wrecsam / *Wrexham***
Vicky Barlow
Gaynor Marsden
Tania ap Sion

**Sylwedyddion / *Observers***
Carol Llewelyn Jones (CYNNAL)
Gwenan Roberts (Careers Wales NW)
Islwyn Griffiths (Careers Wales NE)
Leslie J Francis
Hywel Evans (REMW)

| Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ar 26 Mehefin 2008 | Minutes of meeting held at County Hall, Mold, 26 June 2008 |
|---|---|
| **1. Adfyfyrio tawel**<br>Gyda'r Gêmau Olympaidd yn Tsieina'n prysur nesáu, gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau adfyfyrio am ychydig ar:<br>a) y bobl hynny yn Ne Tsieina a oedd wedi colli anwyliaid, bywoliaeth ac eiddo o ganlyniad i'r ddaeargryn ofnadwy yno, a<br>b) y bobl yn Nhibet a oedd yn parhau i frwydro i warchod eu hunaniaeth, eu diwylliant a'u crefydd. | **1. Quiet reflection**<br>With the forthcoming Olympic games in China almost upon us, the Chair asked members to reflect for a short while on:<br>a) those in southern China who had lost loved ones, livelihoods and property as a result of the terrible earthquake there, and<br>b) those in Tibet who continue to actively struggle to protect their identity, culture and religion. |
| **2. Cyflwyniad a chroeso**<br>Wrth groesawu'r aelodau i'r cyfarfod, cyflwynodd y Cadeirydd Mr Elwyn Davies, Prif Swyddog Addysg Sir y Fflint. Croesawodd Mr Davies yr aelodau i Sir y Fflint. Dywedodd ei fod yn ymfalchïo yng ngwaith CYSAG Sir y Fflint ac yng ngwaith ei hymgynghorydd Addysg Grefyddol, Gavin Craigen, a oedd wedi cyfrannu cymaint i Sir y Fflint, i AALl'au eraill yng Ngogledd Cymru, ac i Gymru'n gyffredinol. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Davies am y croeso a estynnwyd i'r cyfarfod. | **2. Introduction and welcome**<br>In welcoming members to the meeting, the Chair introduced Mr Elwyn Davies, Chief Education Officer for Flintshire. Mr Elwyn Davies welcomed members to Flintshire. He commented on his pride in the work of the Flintshire SACRE and the work of their RE advisor, Gavin Craigen who has contributed so much to Flintshire, other LEAs in North Wales and Wales in general. The Chair thanked Mr Davies for the hospitality extended to the meeting. |
| **3. Ymddiheuriadau**<br>Gavin Craigen, Susan Collingborne, Denise Morris, Bethan Evans, Cllr Lyndon Lloyd, Meinir Loader, Helen Gibbon, Cllr Chris Bithell, Bethan James, Caroline Neudegg, Cadair CYSAG NPT, Cllr Rodgers, Julie Pugh.<br><br>Yn wyneb absenoldeb Gavin Craigen a Susan Collingbourne, cymerodd yr Is-Gadeirydd yr awenau fel Cadeirydd, a chychwynnodd Tania ap Siôn ar ei chyfrifoldebau fel Ysgrifennydd newydd y Gymdeithas. Mewn perthynas â'r ail bwynt, cyfeiriwyd sylw'r aelodau at | **3. Apologies**<br>Gavin Craigen, Susan Collingborne, Denise Morris, Bethan Evans, Cllr Lyndon Lloyd, Meinir Loader, Helen Gibbon, Cllr Chris Bithell, Bethan James, Caroline Neudegg, Chair NPT SACRE, Cllr Rodgers, Julie Pugh.<br><br>Given Gavin Craigen and Susan Collingbourne's absence the Vice-Chair took over as Chair and Tania ap Sion took over the responsibilities of being the new secretary of the Association. On the latter point, members were referred to the minutes of the last WASACRE Executive |

| | |
|---|---|
| bwynt 5 yng nghofnodion cyfarfod diwethaf Pwyllgor Gwaith CCYSAGC, lle nodwyd bod Tania ap Siôn wedi cytuno i dderbyn y penodiad fel Ysgrifennydd y Gymdeithas, a bod gwerthfawrogiad diffuant o'i pharodrwydd i wasanaethau wedi ei fynegi'n unfrydol. Cafodd ei phenodiad ei gadarnhau'n llawn gan yr aelodau yn y cyfarfod hwn hefyd.<br><br>Yn ei rôl fel Cadeirydd newydd CCYSAGC, cydnabu'r Cadeirydd ei bod yn fraint gwasanaethau'r Gymdeithas, hyrwyddo'i henw da, a pharhau i gynnal proffil uchel ar gyfer y pwnc ar lefel genedlaethol. Mynegodd ei argyhoeddiad mai AG oedd y pwnc mwyaf diddorol a chyffrous ar gwricwlwm ysgolion, ond tynnodd sylw at y newidiadau sylweddol a heriol a oedd yn wynebu'r pwnc ar hyn o bryd yng Nghymru..<br><br>Cytunwyd y dylid anfon llythyrau at Gavin Craigen a Susan Collingbourne, yn diolch iddynt am eu cyfraniadau hynod werthfawr yn ystod eu cyfnodau yn eu swyddi. Nododd y Cadeirydd ei fod wedi trefnu gyda Norah Roberts y byddai blodau'n cael eu hanfon at Susan Collingbourne, a diolchodd i Mrs Roberts am wneud y trefniadau hyn. | meeting, point 5, which noted that Tania ap Sion had agreed to accept the appointment as Secretary to the Association and that sincere appreciation of her willingness to serve was unanimously expressed. Her appointment was also fully endorsed by members of the meeting.<br><br>In his role as new Chair of WASACRE, the Chair recognised that it was a privilege to serve the Association, further its good name and reputation and continue to provide a high profile to the subject at a national level. He noted his conviction that RE was the most interesting and exciting subject on the school curriculum but drew attention to the significant and challenging changes facing the subject at this time in Wales.<br><br>It was agreed that a letter should be sent to Gavin Craigen and Susan Collingbourne, thanking them for their most valuable contributions during their periods of office. The Chair noted that he had liaised with Norah Roberts, that flowers to be sent to Susan Collingbourne and thanked Norah Roberts for making these arrangements. |
| **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin ar 14 Mawrth 2008**<br><br>Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir, ar ôl cytuno ar dri o ddiwygiadau:<br><br>(i) tudalen 3, pwynt 3, y frawddeg olaf — 'RE Today' i gael ei newid i 'RE News';<br>(ii) rhestr y rhai a fu'n bresennol yn y cyfarfod, a'r rhestr ymddiheuriadau (ar y dudalen gyferbyn) — enwau Gwyn Rogers ac Eurfryn Davies i gael eu hychwanegu at restr y rhai a fu'n bresennol. | **4. Minutes of the meeting held at Carmarthen, 14 March 2008**<br><br>The minutes were accepted as a true record of that meeting with three amendments which were agreed:<br>(i) page 3, point 3, final sentence – RE Today to be changed to RE News;<br>(ii) list of those present at meeting and apologies (facing page) – Gwyn Rodgers and Eurfryn Davies to be added as present. |

| | |
|---|---|
| | |
| **5. Materion yn codi**<br>Yr oedd nifer o'r materion a oedd yn codi'n eitemau ar agenda'r cyfarfod hefyd, ac fe'u trafodwyd yn y mannau priodol.<br><br>Tudalen 2, pwynt 3 — cadarnhaodd Tania ap Siôn fod 'REflections' wedi ei bostio i AALl'au.<br><br>Tudalennau 2–3, pwynt 7, pwynt bwled 1 — yr oedd llythyr a neges e-bost gan Jon Hawkins, a neges e-bost oddi wrth Morfudd Roberts o LlCC, wedi eu cynnwys ym mhapurau'r aelodau mewn perthynas â'r ddalen gwybodaeth a chynllunio ddiwygiedig. Fel yr oedd yr ohebiaeth yn nodi, yr oedd mater cynnwys AG mewn modd priodol yn y deunyddiau hyfforddi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ei drin bellach. Yr oedd AG bellach wedi ei chynnwys fel pwnc ar y ddalen gynllunio. Mynegodd sawl aelod siom nad oedd mater AG wedi ei drin yn gynharach, ond croesawyd y deilliant cadarnhaol.<br><br>Tudalen 3, pwynt 7, pwynt bwled 2 — Cylchredwyd copi o'r llythyr oddi wrth Susan Lewis, er gwybodaeth. Croesawodd y Cadeirydd y sicrwydd a roddwyd gan Estyn y byddid yn ymgynghori â CCYSAGC, ac awgrymodd y dylid monitro hyn. Nodwyd bod un o gynrychiolwyr CCYSAGC yn aelod o Fforwm Estyn, ac y gellid ymgymryd â monitro drwy'r cyfrwng hwnnw.<br><br>Tudalen 3, pwynt 7, pwynt bwled 6 — er i UCAC roi ar ddeall y byddid yn ymdrin â sylwadau anghywir yn ei gylchgrawn, 'Yr Athro', ynglŷn ag addoli ar y cyd, nododd Rheinallt Thomas nad oedd unrhyw beth wedi ymddangos hyd yn hyn. Yr oedd pryder yn parhau fod rhai o aelodau UCAC wedi cael eu camarwain. Cynigiodd y Cadeirydd gysylltu â'r Undeb er mwyn mynd ar drywydd y | **5. Matters arising**<br>A number of matters arising were also agenda items and were considered at the appropriate points on the agenda.<br><br>Page 2, point 3 – Tania ap Sion confirmed that REflections had been posted to LEAs.<br><br>Pages 2-3, point 7, bullet point 1 – a letter and e-mail from Jon Hawkins and an e-mail from Morfudd Roberts from WAG were included in members' papers in relation to the revised information and planning sheet. As the correspondence indicated, the issue of RE being properly included in Foundation Stage training materials had now been addressed. RE is now included as a subject on the planning sheet. Comments were made by several members about the disappointment that the issue of RE had not been addressed earlier but welcomed the positive outcome.<br><br>Page 3, point 7, bullet point 2 – A copy of the letter from Susan Lewis was circulated, for information. The Chair welcomed Estyn's assurance of consultation with WASACRE and suggested that this should be monitored. It was noted that a WASACRE representative was a member of the Estyn forum and monitoring might be undertaken by this means.<br><br>Page 3, point 7, bullet point 6 – Rheinallt Thomas noted that although UCAC had indicated that incorrect comments concerning collective worship in its magazine, 'Yr Athro' would be addressed, nothing had as yet appeared. There was continuing concern that some UCAC members had been misled. The Chair offered to contact the Union to |

| | |
|---|---|
| mater hwn.<br><br>Tudalen 4, pwynt 8 — cafodd crynodeb o'r cyflwyniad ei gylchredeg i'r aelodau.<br><br>Tudalen 6, pwynt 11, pwynt bwled 1 — yr oedd y llythyr ynglŷn â'r Rhwydweithiau 14–19 wedi ei anfon at y CYSAG'au. Ymatebodd cynrychiolwyr rhai CYSAG'au eu bod wedi derbyn y llythyr hwn, tra'r oedd eraill heb ei dderbyn. Gofynnwyd i'r Aelodau ymchwilio i'r mater hwn gyda'u CYSAG'au.<br><br>Tudalen 6, pwynt 11, pwynt bwled 2 — dywedodd Vicky Thomas fod ymateb wedi ei dderbyn oddi wrth LlCC, ond ei bod wedi ei siomi nad oedd y problemau wedi eu trin. Rhoddodd wybod i'r aelodau fod deunyddiau'n cael eu hanfon yn awtomatig i ysgolion yn Lloegr, ond bod yn rhaid gofyn amdanynt yng Nghymru, ac nad oedd argraffiad Cymraeg i'w gael. Cytunwyd y byddai Vicky Thomas yn cysylltu â'r Ysgrifennydd, ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at LlCC i ofyn am arian ar gyfer mynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn y ddarpariaeth.<br><br>Tudalen 7, pwynt 11, pwynt bwled 5 — Nodwyd bod llythyr ynglŷn â phresenoldeb wedi ei anfon at y CYSAG'au. Teimlai'r aelodau y buasai presenoldeb cynrychiolwyr athrawon mewn cyfarfodydd yn werthfawr, a thrafodwyd amrywiaeth o broblemau a oedd yn rhwystro hyn. Cytunwyd y dylid anfon llythyr arall at Gyfarwyddwyr Addysg, Clercod CYSAG'au, Arweinyddion Cynghorau, a Chadeiryddion CYSAG'au ym mhob AALl, yn gofyn am welliant mewn presenoldeb ac yn pwysleisio pa mor bwysig yr oedd hi fod AALl'au yn talu'r treuliau angenrheidiol er mwyn hwyluso cynrychiolaeth athrawon yn CCYSAGC. | pursue this issue.<br><br>Page 4, point 8 – a summary of the presentation was circulated to members.<br><br>Page 6, point 11, bullet point 1 – the letter concerning the 14-19 Networks had been sent to SACREs. Some SACRE representatives responded that they had received this letter, while others had not. Members were asked to check this issue with their SACREs.<br><br>Page 6, point 11, bullet point 2 – Vicky Thomas reported that a response had been received from WAG, but was disappointed that the issues had not been addressed. She informed members that materials are automatically sent to schools in England but had to be requested in Wales, and there was no Welsh language edition. It was agreed that Vicky Thomas would liaise with the Secretary and a letter be sent to the WAG to request funding to address the imbalance in provision.<br><br>Page 7, point 11, bullet point 5 – It was noted that a letter to SACREs regarding attendance had been sent. Members felt that it would be valuable to have the presence of teacher representatives at meetings and explored a variety of problems which prevented this. It was agreed that another letter should be sent to Directors of Education, SACRE Clerks, Council Leaders and Chairs of SACREs in each LEA requesting an improvement in attendance and emphasising the importance of LEAs meeting the necessary expenses to facilitate teacher representation at WASACRE. |
| **6. Gohebiaeth** | **6. Correspondence** |

| | |
|---|---|
| Nid oedd dim i'w adrodd o dan yr eitem hon ar yr agenda. | There was nothing under this agenda item. |
| **7. Cyflwyniad**<br>Oherwydd absenoldeb Denize Morris, croesawodd y Cadeirydd Gwenan Roberts ac Iestyn Griffiths o Gyrfaoedd Cymru i roi cyflwyniad ar 'AG a byd gwaith'.<br>Crynodeb: I gychwyn, amlinellwyd y cyd-destun i waith Gyrfaoedd Cymru. Un agwedd ar ei waith mewn perthynas â phartneriaethau rhwng addysg a busnes oedd darparu lleoliadau datblygiad proffesiynol. Yr oedd y lleoliadau datblygiad proffesiynol yn agored i athrawon cynradd ac uwchradd ac i ddarlithwyr Addysg Bellach. Yr oedd y lleoliadau'n digwydd ar safle mewn busnes, cwmni neu sefydliad perthnasol, a gallent ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd. Amcanion cyffredinol y lleoliadau oedd: datblygu cysylltiadau rhwng addysg a busnes; diweddaru gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â diwydiant; datblygu sgiliau ymhellach ar gyfer addysgu mewn pwnc penodol; a hybu datblygiad proffesiynol a phersonol. Enghreifftiau o'r diwydiannau a ddefnyddid oedd: Deeside Power; McDonald's; RSPB; Airbus UK; Venue Cymru; Dŵr Cymru; Sw Mynydd Cymru; a'r Amgueddfa Lechi .<br><br>Aeth y cyflwyniad yn ei flaen i drafod lleoliadau penodol ar gyfer AG, a oedd yn ategu'r fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer plant 3 i 19 oed yngNghymru, a'i phwyslais ar ddysgu ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys 'gyrfaoedd a byd gwaith'. Disgrifiwyd nifer o enghreifftiau o leoliadau, gan gynnwys Llwybr Ffydd Lerpwl a'r ganolfan aml-ffydd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.<br><br>Yr oedd y themâu perthnasol ar gyfer lleoliadau AG yn cynnwys ymchwilio i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle, masnach deg, gwirfoddoli, a gwaith yn ymwneud â byd natur. | **7. Presentation**<br>Given Denize Morris' absence, the Chair welcomed a presentation on 'RE and the world of work' by Gwenan Roberts and Iestyn Griffiths from Careers Wales.<br><br>Summary: Initially, the work of Careers Wales in general was contextualised, and one aspect of its work in relation to education business partnerships was the provision of professional development placements. The professional development placements are open to primary and secondary teachers and FE lecturers. The placements take place on-site at a relevant business, company, or organisation, and these can take place at any time in the academic year. The aims of the placements are: to develop education business links; to update knowledge and understanding of industry; to develop skills further to teach specific subject; and to develop professionally and personally. Examples of industries used include: Deeside Power; Mc Donald's; RSPB; Airbus UK; Venue Cymru; Welsh Water; Welsh Mountain Zoo; and the Slate Museum.<br><br>The presentation then considered RE-specific placements, which supported the new national framework for religious education for 3 to 19 year olds in Wales with its emphasis on learning across the curriculum, including 'careers and the world of work'. A number of practical examples of placements were described which covered the Liverpool Faith Trail and the multi-faith centre at Ysbyty Gwynedd, Bangor.<br><br>Relevant themes for RE placements include exploring equality and diversity in the workplace, fair trade, volunteering, and work involving the natural world. Pertinent examples of these themes |

| | |
|---|---|
| Darparwyd enghreifftiau perthnasol o'r modd yr oedd y themâu hyn yn gweithio'n ymarferol.<br><br>Gwefan Gyrfaoedd Cymru: www.gyrfacymru.com neu www.careerswales.com<br>Manylion Cyswllt y cyflwynwyr: Islwyn Griffiths, Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain / *Careers Wales North East*, islwyn.griffiths@cwne.org 01352 750456<br>Gwenan Roberts, Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin / *Careers Wales North West*, gwenanr@careers-gyrfa.org.uk 01745 330012<br><br>Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad o'r cyflwyniad, a nodwyd bod Gyrfaoedd Cymru wedi darparu profiadau gwerthfawr a pherthnasol ar gyfer athrawon mewn amrywiaeth o gyd-destunau gweithio, a allai adborthi i'r ystafell ddosbarth hefyd. Nodwyd yn ogystal fod REMW wedi cyhoeddi tri rhifyn o RE Ideas *gan Eluned Jones, a oedd yn ymdrin â byd gwaith.*<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau aelod o Gyrfaoedd Cymru am eu cyflwyniadau gwerthfawr, ac yn enwedig am eu parodrwydd i wneud y cyflwyniad ar rybudd byr iawn. | working in practice were provided.<br><br>Careers Wales website: www.gyrfacymru.com or www.careerswales.com<br>Contact details for the presenters: Islwyn Griffiths, Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain / *Careers Wales North East*, islwyn.griffiths@cwne.org 01352 750456<br>Gwenan Roberts, Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin / *Careers Wales North West*, gwenanr@careers-gyrfa.org.uk 01745 330012<br><br>Members noted their appreciation of the presentation and that Careers Wales had made available valuable and relevant experiences for teachers in a variety of working contexts, which could also feed back into the classroom. It was noted also that REMW had published three issues of *RE Ideas* by Eluned Jones relating to the world of work.<br><br>The Chair also thanked both members of Careers Wales for their valuable presentations and especially their readiness to undertake the presentation at very short notice. |
| **8. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 21 Mai 2008**<br>Pwynt 2b — nododd y Cadeirydd fod Gavin Craigen wedi ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn pa bryd y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal, a phwy fyddai â rhan yn y broses o ddiwygio Cylchlythyr 10/94. Nid oedd unrhyw ateb wedi dod i law hyd yn hyn.<br><br>Pwynt 6 — gofynnwyd i'r aelodau ystyried mater y frawddeg olaf yn ystod y Cyfarfod Blynyddol, yn ddiweddarach yn y dydd. | **8. Report from the Executive Committee held on 21 May 2008**<br>Point 2b – the Chair noted that Gavin Craigen had written to the Minister enquiring when this would take place and who would be party to the revision of Circular 10/94. No answer had been received as yet.<br><br>Point 6 – members were asked to consider the issue of the last sentence at the later meeting of the AGM. |

| | |
|---|---|
| Pwynt 7 — trafododd yr aelodau amseriad adroddiad blynyddol y Pwyllgor Gwaith. Un awgrym oedd y dylid cynnwys cyfarfod tymor yr haf gyda chyfarfodydd y flwyddyn ddilynol, er mwyn osgoi gorfod ceisio rhagweld penderfyniadau cyfarfod yr haf, fel oedd yn digwydd ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.<br><br>Pwynt 8b — siaradodd y Cadeirydd am gyfnod cyffrous a oedd o flaen athrawon AG yng Nghymru oherwydd datblygiad dwy ganolfan AG. Nododd y byddai Canolfan y Santes Fair yn cael ei sefydlu yn Llyfrgell Deiniol Sant, Penarlâg, o 1 Awst 2008 ymlaen, i ganolbwyntio ar ymchwil dwyieithog, datblygu cwricwlaidd ac adnoddau.<br><br>Yn y cyfamser, byddai Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru'n parhau i weithredu, ond bellach fel menter newydd ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin , . Fel rhan o brîff y Ganolfan, byddid yn gofyn i AALl'au barhau â'u cefnogaeth ariannol i *RE News*, ac yr oedd llythyr wedi ei anfon at AALl'au yn rhoi gwybod iddynt am ddatblygiadau a bwriadau diweddar yn y cyswllt hwn. Rhoddwyd copi o'r llythyr hwn i'r aelodau.<br><br>Y gobaith oedd y byddai'r ddwy Ganolfan AG yn cyfrannu, yn eu ffyrdd gwahanol a chyflenwol, at wasanaethau AG yng Nghymru. | Point 7 – members discussed the timing for the annual Executive report. One suggestion was that the summer meeting of the year should be included with the first two meeting of the following year to avoid current anticipation of the summer meetings. This will be considered at the next Executive meeting.<br><br>Point 8b – the Chair spoke of an exciting period for RE teachers in Wales with the development of two RE centres. He noted that from 1 August 2008, the St Mary's Centre at St Deiniol's Library, Hawarden would be established, focussing on bilingual research, curriculum development and resources.<br><br>The Welsh National Centre for Religious Education meanwhile would continue to operate but now as a new joint venture between Bangor University and Trinity College, Carmarthen. As part of the Centre's brief, LEAs would be asked to continue their financial support for *RE News*, and a letter to LEAs had been sent informing them of recent developments and intentions in this regard. Members were given a copy of this letter.<br><br>It was hoped that both RE Centres would contribute in their different and complementary ways to serving RE in Wales. |
| **9. Cynhadledd Addysg Grefyddol Ôl 16**<br>Dosbarthodd y Cadeirydd ddau bapur a baratowyd gan Gavin Craigen, yn canolbwyntio ar faterion trefniadol a rhaglen ddrafft ar gyfer y gynhadledd.<br><br>Rhoddwyd eglurhad pellach ynglŷn â'r rhestr o wahoddedigion i'r Gynhadledd. Byddid yn targedu uwch reolwyr mewn | **9. Post-16 RE Conference**<br><br>The Chair distributed two papers prepared by Gavin Craigen which focused on organisational issues and a draft programme for the conference.<br><br>Clarification about the invitation list to the Conference was given. Those invited targeted senior management in schools |

| | |
|---|---|
| ysgolion, yn enwedig y rhai a oedd â rhan yn y gwaith o drefnu darpariaeth Ôl-16 o'r fath. Ni fyddid yn canolbwyntio ar aelodau CYSAG'au a staff addysgu AG, ond gellid eu gwahodd os nad oedd neb arall yn gallu bod yn bresennol. Yr oedd y sail resymegol i'r rhestr yn canolbwyntio ar bwysigrwydd darbwyllo uwch reolwyr o werth AG ac o rôl uwch reolwyr yn y gwaith o ddarparu AG Ôl-16 yn effeithiol. Byddai APADGOS yn mynd ar drywydd unrhyw ddiffyg ymateb i'r gwahoddiad. | and especially those involved in arranging such Post-16 provision. SACRE members and RE teaching staff were not seen as the focus group but might be invited if no one else was able to attend. The rationale for the list focussed on the importance of persuading senior management of the value of RE and the role of senior management in the effective delivery of post-16 RE. DCELLS will chase up any non-responses to the invitation. |
| Yr oedd y Parch. Ddr. Greg Barker, Pennaeth Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol Coleg y Drindod, wedi gofyn am gael dod i'r gynhadledd a sefydlu stondin ar gyfer arddangos darpariaeth berthnasol gan ei Ysgol ar gyfer cynhadledd 6ed dosbarth. Nododd y Cadeirydd fod y mater hwn wedi ei dynnu i sylw holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith, ac y cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cais, ond y dylai Ysgolion Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol eraill gael eu gwahodd i'r gynhadledd hefyd, er tegwch, er mwyn cael cyfle i ddangos beth y gallent hwythau ei gynnig i ysgolion. Cytunwyd y dylid anfon llythyrau at yr holl Ysgolion Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol eraill ledled Cymru, yn eu gwahodd i'r gynhadledd. | The Rev. Dr. Greg Barker, Head of Theology and Religious Studies at Trinity College had requested whether he might attend the conference and set up a stand to display relevant 6$^{th}$ form conference provision by his School. The Chair noted that this issue had been sent to all Executive members noting a positive response to his request but that other Schools of Theology and Religious Studies should also in fairness be invited to the conference to show what they could offer schools. It was agreed that letters should be sent to all other Schools of Theology and Religious Studies throughout Wales, inviting them to the conference. |
| Awgrymodd Vicky Thomas y gallai fod yna werth mewn ffilmio adborth myfyrwyr ar gynhadledd diwrnod i fyfyrwyr 6ed dosbarth ysgolion Casnewydd, a oedd i gael ei chynnal ar 4 Gorffennaf, gyda golwg ar gynnwys y ffilm, o bosib, yn adran 'Gwrando ar bobl ifanc yng Nghymru' y rhaglen. Cytunwyd y byddai Vicky Thomas yn cysylltu â Chris Owens o Ysgol Basaleg er mwyn trefnu bod y ffilmio'n digwydd. Byddai'r ffilm wedyn yn cael ei hanfon at Gavin Craigen i'w hystyried. | Vicky Thomas suggested to members the potential value of filming student feedback from a Newport school's 6$^{th}$ form day conference being held on 4 July, for possible inclusion in the 'Listening to young people in Wales' section of the programme. It was agreed that Vicky Thomas would liaise with Chris Owens, Bassaleg School for the filming to take place. This would then be sent to Gavin Craigen for consideration. |
| Yr oedd y rhoddion a dderbyniwyd hyd | Donations received to date to meet the |

| | |
|---|---|
| yma, er mwyn diwallu costau o £4,000 ar gyfer cyfieithu'r adnodd Ôl-16, fel a ganlyn:<br>Ethel a Gwynne Morgan — £200;<br>Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon — £100;<br>Henaduriaeth Môn — £200;<br>Eglwys Bresbyteraidd Cymru — £500.<br>CYFANSWM = £1,000.<br>Yr oedd dwy Henaduriaeth arall wedi cytuno i wneud cyfraniadau.<br>Yr oedd REMW wedi cytuno i dalu hyd at hanner y diffyg ariannol, hyd at uchafswm o £1,500.<br><br>Gan ragweld mai tua £1,500 fyddai'r diffyg, gofynnwyd i'r aelodau edrych yn gyflym ar gyfleoedd ariannu eraill.<br><br>Canmolodd y Cadeirydd waith Gavin Craigen yn trefnu'r Gynhadledd. | financial costs of £4000 for the translation of the Post-16 resource were as follows:<br>Ethel & Gwynne Morgan £200;<br>Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon £100;<br>Henaduriaeth Môn £200;<br>Presbyterian Church of Wales £500.<br>TOTAL = £1,000.<br>Two other Presbyteries have agreed to make donations.<br>REMW has agreed to meet up to half the deficit up to a maximum of £1,500.<br><br>With an expected shortfall of around £1,500, members were asked to quickly explore other funding opportunities.<br><br>The Chair praised Gavin Craigen's work in organising the Conference. |
| **10. UFA**<br>Cafodd manylion am dri chyhoeddiad newydd gan REMW eu rhannu gyda'r aelodau gan Rheinallt Thomas. Yr oedd *Amazing Lives* yn addasiad o adnodd Cymraeg a oedd yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig. Byddai dau gyfieithiad Cymraeg pellach yn ymddangos cyn hir yn y gyfres *Archwilio Thema*; Y teitlau Saesneg a oedd yn cael eu cyfieithu oedd *Puzzling Questions* a *Beliefs and Actions in the World*.<br><br>Cyhoeddodd Gill Vaisey y byddai dau deitl newydd ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref: *Puddles and the Christmas Play* a *The Baby Birds*. | **10. AOB**<br>Rheinallt Thomas shared with members 3 new publications by REMW. *Amazing Lives* is an adaptation of a Welsh language resource which contributes to the curriculum Cymreig. Two more Welsh language translations will appear shortly in the *Exploring a Theme* series; the English titles being translated are *Puzzling Questions* and *Beliefs and Actions in the World*.<br><br>Gill Vaisey announced the publication in October of two new titles for Foundation Phase children: *Puddles and the Christmas Play* and *The Baby Birds*. |

# DRAFFT / DRAFT

| **Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Yr Wyddgrug ar26 Mehefin 2008** | **Minutes of the AGM held at Mold, 26 June 2008** |
|---|---|
| **1. Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 28 Mehefin 2007**<br>Cafodd y Cofnodion eu cytuno a'u llofnodi. | **1. Minutes of the AGM held at Llandrindod Wells, 28 June 2007**<br><br>The minutes were agreed and signed. |
| **2. Materion yn codi**<br>Tudalen 1, pwynt 2 — Nodwyd bod Mark Campion, cynrychiolydd Estyn yng nghyfarfodydd CCYSAGC, yn dychwelyd i addysgu. Cytunwyd y dylid anfon llythyr at Estyn yn diolch iddo am ei gyfraniad, ac yn gwahodd Estyn i benodi cynrychiolydd newydd â statws sylwedydd.<br><br>Tudalen 3, pwynt 5 — Byddai materion a oedd yn ymwneud â diwygio'r Cyfansoddiad yn cael eu trafod yn ddiweddarach o dan eitem rhif 8 ar yr Agenda. | **2. Matters arising**<br>Page 1, point 2 – It was noted that Mark Campion, the Estyn representative at WASACRE meetings, is returning to teaching. It was agreed that a letter should be written to Estyn thanking him for his contribution and inviting another representative with observer status.<br><br>Page 3, point 5.- Matters relating to the revision of the Constitution would be discussed later under Agenda item 8 |
| **3. Adroddiad CCYSAGC am 2007–2008**<br>Cylchredwyd copïau o'r ‘Adroddiad ar weithgareddau'r Gymdeithas 2007/2008’.<br><br>Pwynt 3 — Cafodd dogfen ar wahân, ‘Adroddiad ar y cyfarfod gyda'r Gweinidog — 26 Tachwedd 2007’ ei gylchredeg. Yn ei gyfarfod nesaf ar 22 Medi, byddai'r Pwyllgor Gwaith yn cynllunio ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda'r Gweinidog.<br><br>Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i | **3. WASACRE report for 2007-2008**<br><br>Copies were circulated of the ‘Report of the activities of the Association 2007/2008’.<br>Point 3 – A separate ‘Report on the meeting with the Minister – 26 November 2008’ was circulated. At its next meeting on 22 September, the Executive will plan for the next meeting with the Minister.<br><br>The Chair thanked Gavin Craigen for |

| | |
|---|---|
| Gavin Craigen am y crynodebau tra defnyddiol a manwl hyn o'r datblygiadau. | these very useful and detailed summaries of developments. |
| **4. Adroddiad y Trysorydd**<br>Dosbarthodd John Mitson gopïau o'i adroddiad, a'r cyfrifon archwiliedig, am y flwyddyn ariannol 2007/2008.<br><br>O dan 'Datganiad Cyfrifon 2007/2008' (a): Derbyniadau, nododd y Trysorydd nad oedd y derbyniadau ond yn cynnwys tanysgrifiadau 17 o GYSAG'au. Er bod gweddill y CYSAG'au wedi talu, yr oedd y taliadau wedi dod i law'n rhy hwyr i'w cynnwys yng nghyfrifon 2007/2008; byddent yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn ddilynol. O ganlyniad, yr oedd ffigyrau'r flwyddyn dan sylw'n ymddangos yn artiffisial o isel. Yr oedd yr holl GYSAG'au, fodd bynnag, wedi cytuno i'r cais ynglŷn â'r tanysgrifiad ac wedi ymateb yn gadarnhaol.<br><br>O dan (b), Gwariant, yr oedd y prif wariannau wedi bod ar gyfarfodydd ac ar ailargraffu'r llawlyfr CYSAG'au, a oedd yn adnodd gwerthfawr. Yr oedd sefyllfa ariannol y Gymdeithas yn un iach, a gwahoddwyd yr aelodau i dderbyn a mabwysiadu'r Datganiad Cyfrifon; cytunwyd ar hynny.<br><br>Ymatebodd y Trysorydd i gwestiynau ynglŷn â buddsoddiadau'r Gymdeithas.<br><br>O dan 'Tanysgrifiadau blynyddol 2008/2009', derbyniwyd y byddai cynnydd bychan yn nhanysgrifiad y CYSAG'au, yn unol â'r gyfradd chwyddiant flynyddol yn ôl yr arfer, ac y byddai'r swm yn cael ei bennu'n £373 am 2008/2009.<br><br>O dan 'Talu Treuliau', cytunwyd y byddai'r lwfans teithio o 25 ceiniog y filltir ar gyfer swyddogion yn cael ei godi i 40c y filltir o 2008/2009 ymlaen. Ar wahân i hyn, ni argymhellwyd unrhyw | **4. Treasurer's report**<br>John Mitson, distributed copies of his report and the audited account for the 2007/2008 financial year.<br><br>Under 'Statement of Accounts 2007/2008' (a) Receipts – The Treasurer noted that the receipts contained subscriptions from only 17 SACREs. Although the remaining SACREs had paid, the payments were received too late to be included in the 2007/2008 accounts; they would be included in the following year's accounts. As a result, the figures for this year appear artificially low. All SACREs, though, are signed up to the subscription request and have responded positively.<br><br>Under (b) Expenditure – the main expenditures had been on meetings and the reprinting of the SACRE handbook which is a valuable resource. The Association's financial situation was healthy and members were invited to receive and adopt the Statement of Accounts, which was agreed.<br><br>The Treasurer responded to questions relating to the Association's investments.<br><br>Under Annual Subscriptions 2008/2009 – it was accepted that, in line with usual practice, there would be a slight increase reflecting the annual inflation rate in SACRE subscriptions, which would be set at £373 for 2008/2009.<br><br>Under Payment of Expenses – It was agreed that the 25 pence per mile travel allowance for officers would be increased to 40 pence per mile from 2008/2009. Apart from this, no other changes were |

| | |
|---|---|
| newidiadau eraill ar gyfer 2008/2009.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i John Mitson am ei waith gofalus a'i adroddiad manwl. | recommended for 2008/2009.<br><br>The Chair thanked John Mitson for his careful work and detailed report. |
| **5. Sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol**<br>Cyflwynodd Mairwenna Lloyd sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol. Yr oedd Gavin Craigen yn ymddiheuro am beidio â bod yn bresennol i gyflwyno'i sylwadau'n bersonol, ac yn diolch i Mairwenna Lloyd am gytuno i wneud hynny ar ei ran. Nododd fod y ddwy flynedd a aethai heibio wedi bod yn rhai prysur ac arwyddocaol oherwydd y datblygiadau niferus a gafwyd. Cymeradwyodd bresenoldeb CCYSAGC, a oedd wedi ymateb pan gododd angen.<br><br>Pwysleisiwyd pwysigrwydd parhau i gydweithio er lles AG, ysgolion a'u hathrawon, a disgyblion Cymru. Yr oedd y Gymdeithas wedi cyflawni llawer, a byddai hyn yn cael ei barhau gan y gynhadledd Addysg Grefyddol Ôl-16 ar y cyd ag APADGOS, a oedd ar ddod.<br><br>Yr oedd aelodau wedi gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd, hefyd, ar eu hymateb i'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG yng Nghymru; yr oedd pob CYSAG wedi cytuno i'w fabwysiadu neu i'w addasu fel ei faes llafur cytunedig. Os cafwyd unrhyw siomedigaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd, y ffaith na fu'r cydweithredu a'r rhannu dilynol rhwng CYSAG'au wedi bod cymaint ag y rhagwelwyd oedd honno. Ni fu hyn yn fwriadol; yn hytrach, yr oedd pethau wedi gweithio allan yn wahanol mewn gwahanol Awdurdodau, a oedd â gwahanol ddulliau o gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Nodwyd bod yr egwyddor o rannu a chefnogi rhwng CYSAG'au yn dal i fodoli, ac y byddai hyn o fudd i AG yng Nghymru.<br><br>Yr oedd yn hanfodol, fodd bynnag, fod yr achosion o gydweithredu cadarnhaol a | **5. Outgoing Chair’s comments**<br>Mairwenna Lloyd presented the Outgoing Chair’s comments. Gavin Craigen apologised for not being present to deliver the comments in person and thanked Mairwenna Lloyd for agreeing to do this on his behalf. He noted that the past two years had been very busy and significant due to the many developments which had taken place. He commended the presence of WASACRE which had responded when need arose.<br><br>The importance of continuing to work together was emphasised for the benefit of RE, schools and their teachers, and the pupils of Wales. The Association had achieved a great deal and this would be continued by the forthcoming Post-16 RE conference with DCELLS.<br><br>Members had also successfully worked together in their response to the National Exemplar Framework for RE in Wales, which every SACRE has agreed to adopt or adapt as its agreed syllabus. If there was any disappointment during his period as Chair, it was that the subsequent collaboration and sharing between SACREs was not as he had foreseen. This had not been intentional, but rather that things had worked out differently in different Authorities with various ways of planning for the new curriculum. It was noted that the principle of sharing and support between SACREs was still there and this would be of benefit to RE in Wales.<br><br>It was essential, though, that the positive collaborations which went beyond |

| | |
|---|---|
| oedd yn mynd y tu hwnt i ffiniau a phrosiectau AALl'au unigol yn parhau. Yr oedd yn hawdd i broblemau a datblygiadau dynnu sylw oddi ar brif ffocws y Gymdeithas, a chlymu aelodau mewn trafodaethau na fyddent o fudd i AG yng Nghymru. Ei gyngor ef oedd y dylid gofalu i ganolbwyntio ar y materion pwysicaf — anghenion a llwyddiannau disgyblion mewn AG mewn ystafelloedd dosbarth yng Nghymru.<br><br>Yr oedd y Cadeirydd Ymadawol yn dwyn y meddyliau hyn i sylw'r Gymdeithas a'r Cadeirydd newydd, Vaughan Salisbury. Dymunodd yn dda i'r Cadeirydd newydd yn ei swydd. | individual LEA boundaries and projects continued. It was easy for issues and developments to draw attention away from the Association's main focus, and tie members in discussions which would not benefit RE in Wales. He advised that care should be taken to focus on the most important issues – the needs and successes of pupils in RE in classrooms in Wales.<br><br>The Outgoing Chair brought these thoughts to the attention of the Association and the new Chair, Vaughan Salisbury. He wished the new Chair well in his post. |
| **6. Etholiad i'r Pwyllgor Gwaith**<br>Cynhaliwyd yr etholiadau gan Hywel Evans. Etholwyd y Cynghorydd Michael Gray i swydd yr Is-Gadeirydd. Cafodd Vicky Thomas (Torfaen) a David Williams (Abertawe) eu hethol i'r Pwyllgor Gwaith am y cyfnod 2008–2011. Oherwydd i Tania ap Siôn (Wrecsam) symud i swydd yr Ysgrifennydd, yr oedd swydd ychwanegol wedi dod yn wag ar y Pwyllgor Gwaith. Cytunodd yr aelodau i dderbyn y trydydd enwebai ar gyfer y Pwyllgor Gwaith, Eirian Pierce (Conwy), i lenwi'r swydd wag hon am y cyfnod a oedd yn weddill, sef 2008–2010. Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i gael cynrychiolydd athrawon ar y Pwyllgor Gwaith.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r rhifwr, Hywel Evans, am ei waith. | **6. Election to Executive**<br>Hywel Evans conducted the elections. Cllr Michael Gray was elected to post of Vice-Chair. Vicky Thomas (Torfaen) and David Williams (Swansea) were elected to the Executive, for the period 2008-2011. Due to Tania ap Siôn's (Wrexham) move to the office of Secretary, an additional vacancy was created on the Executive. Members agreed to accept the third nomination for the Executive, Eirian Pierce (Conwy) to fill this vacancy for the remaining period, 2008-2010. Members welcomed the opportunity to have a teacher representative on the Executive.<br><br>The Chair thanked the teller, Hywel Evans, for his work. |
| **7. Cyfansoddiad**<br>Nododd y Cadeirydd fod geiriad Pwynt 4 (iii) (c) (d) (e) ac (f), a pharagraff olaf (iii), bellach wedi eu heglurhau; ac ar ôl peth trafodaeth, fe'i derbyniwyd gan yr aelodau. Tynnodd Hywel Evans sylw at yr effaith y gallai'r newidiadau ei chael ar | **7. Constitution**<br>The Chair noted that the wording of Point 4 (iii) (c) (d) (e) and (f) and the final paragraph of (iii) had now been clarified and following some discussion was accepted by members. Hywel Evans drew attention to the effect the changes may |

| | |
|---|---|
| ddau aelod o'r Pwyllgor Gwaith, sef yr Hybarch A. John Lewis a'r Tad Ieuan Wyn Jones. Argymhellodd y dylid gwahodd y ddau i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith CCYSAGC ym mis Medi, oherwydd y gynhadledd a oedd ar ddod; a phe na baent yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd dilynol, y dylid cydnabod eu cyfraniadau. Derbyniwyd hyn gan yr aelodau. | have on two members of the Executive, namely the Ven. A John Lewis and Father Ieuan Wyn Jones. He recommended that both should be invited to attend the next WASACRE Executive meeting in September because of the forthcoming conference, and if they are not invited to subsequent meetings, their contributions should be acknowledged. This was accepted by members. |
| **8. Dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd**<br>7 Tachwedd — Cwmbrân, Sir Fynwy<br>13 Mawrth 2009 — Tŷ Bryn Garw, Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cyfarfod yr haf — yn Sir Ddinbych, y lleoliad i'w gadarnhau cyn gynted â phosibl.<br>13 Tachwedd — Tonypandy, Rhondda Cynon Taf.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu presenoldeb, ac i'r Cadeirydd Ymadawol, Gavin Craigen, a Norah Roberts am eu gwaith yn sicrhau bod y digwyddiad wedi ei drefnu mor dda a bod papurau cefndir ar gael. Diolchodd hefyd i Wyn Hobson am ddarparu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | **8. Dates and venues of meetings**<br>7 November – Cwmbran, Monmouthshire<br>13 March 2009 – Tŷ Bryn Garw, Bridgend<br>Summer meeting – in Denbighshire, location to be confirmed as soon as possible.<br>13 November – Tonypandy, RCT.<br><br>The Chair thanked members for their attendance and the outgoing Chair, Gavin Craigen, and Norah Roberts for their work in ensuring that the day’s event had been so well organised and background papers made available. He also thanked Wyn Hobson for the simultaneous translation provision. |